**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL - DYDD MAWRTH, 11 CHWEFROR 2020 DYDD MAWRTH, 11 CHWEFROR 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: B. SUMMERS (CADEIRYDD)

Councillors D. Bevan
D. Hancock
W. Hodgins
J. P. Morgan
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Thomas
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mandy Moore, G. Thomas a D. Wilkshire. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>ADRODDIAD GWEITHGAREDDAU AR GYFER CHWARTER 3 2019/20</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Trwyddedu.<br>Dywedodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu a Masnachol fod yr adroddiad yn amlinellu gwaith y Tîm Trwyddedu am y trydydd chwarter rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2019 yng nghyswllt dyletswyddau trwyddedu statudol. Siaradodd y Rheolwr Tîm am yr adroddiad ac amlinellu'r pwyntiau allweddol yng nghyswllt yr Adroddiad Gweithredol a'r Adroddiad Rheoli.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu a Masnachol yr Aelodau at ddyddiad gweithredu'r unedau isafswm pris a gadarnhawyd erbyn hyn fel 2 Mawrth 2020. Soniodd y Rheolwr Tîm hefyd am brosiect peilot Gwasanaethau Cefnogaeth ar gyfer Gamblo ym Mlaenau Gwent a nododd y byddai Blaenau Gwent yn un o'r awdurdodau cyntaf i ymwneud ag ymchwilio'r galw am hyfforddiant a byddai'n gweithio gyda ARA a CAB i ddatblygu pecyn cymorth ar y cyfryngau cymdeithasol. Defnyddir y pecyn hwn i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau cefnogaeth yn gysylltiedig â gamblo ac y bwriedir ymestyn hyfforddiant i staff rheng-flaen mewn rôl gefnogi.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Tîm am y trosolwg defnyddiol o'r adroddiad a gwahoddodd gwestiynau gan Aelodau ar y pwynt hwn.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at gyngion prydau bwyd 'Bwyta Mewn i Un neu Ddau' mewn archfarchnadoedd a gofynnodd os byddai'r isafswm pris yn effeithio ar gost y gwin yn y pecynnau hyn gan y byddai'n cynyddu cost gwin.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu Masnachol mai Safonau Masnach sy'n arwain y prosesau isafswm pris a chytunodd fynd â'r cwestiwn hwn yn ôl atynt er mwyn iddo gael ei ystyried.<br><br>Yng nghyswllt cwestiwn a godwyd am y cynnydd mawr yn nifer y trwyddedau dros dro, dywedwyd y bu'r cynnydd mewn niferoedd oherwydd Cwpan Rygbi'r Byd.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu a Masnachol y cynhaliwyd | |

| | | |
|---|---|---|
| | trafodaethau am amlder yr Adroddiad Gweithgareddau. Cytunwyd y cyflwynir Chwarter 4 fel y cytunwyd, fodd bynnag wedyn byddai’r adroddiadau’n cael eu cyflwyno ar sail 6 mis. Ychwanegodd y Rheolwr Tîm y rhoddir adroddiad ar wahân i’r Pwyllgor am unrhyw faterion o bwys sylweddol er mwyn hysbysu Aelodau.<br><br>PENDRFYNWYD derbyn yr adroddiad a nododd y Pwyllgor yr adroddiad gweithgaredd ar gyfer y chwarter hwn. | |